

Ymateb y Llywodraeth: Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ac yn derbyn y materion a godwyd. Er bod y pwyntiau yn golygu bod gofyn gwneud cywiriadau i'r Cod, mân bwyntiau drafftio yw'r rhain nad ydynt yn newid nac yn effeithio ar weithrediad nac effaith gyfreithiol y Cod ei hun.

Felly, mae'r Llywodraeth yn cynnig i'r Pwyllgor bod y cywiriadau a nodir isod yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd, cyn i'r Cod gael ei gyhoeddi. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod y dull hwn yn un pragmataidd a chymesur, a fydd yn sicrhau bod y Cod yn cael ei gyhoeddi'n gywir heb oedi diangen.

Pwynt craffu 1	Bydd y canllawiau statudol <u>Escalating Concerns with, and Closures of Care Homes Providing Services for Adults</u> yn cael eu diffinio fel “ <i>Canllawiau 2009</i> ” ym mharagraff 1.1, ac yn lle'r teitl llawn ym mharagraff 1.2 rhoddir “ <i>Canllawiau 2009</i> ”.
Pwynt craffu 2	Bydd y cyfeiriad at “1.2(b)” ym mharagraff 1.3 yn cael ei ddiwygio i ddweud “ <i>paragraff 1.2(b)</i> ”.
Pwynt craffu 3	Bydd y cyfeiriad ym mharagraff 1.4 at “ <i>Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</i> ” a'r cyfeiriad ym mharagraff 1.5 at “ <i>Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006</i> ” yn cael eu newid i “ <i>Ddeddf 2014</i> ” a “ <i>Ddeddf 2006</i> ” yn y drefn honno.
Pwynt craffu 4	Bydd y cyfeiriad ym mharagraff 1.6 at “ <i>adran 147</i> ” yn cael ei ddiwygio i ddweud “ <i>adran 147 o Ddeddf 2014</i> ”.
Pwynt craffu 5	Ym mrawddeg olaf paragraff 1.14 yn y testun Cymraeg, bydd y geiriau “ <i>a gwerthuso</i> ” yn cael eu dileu.
Pwynt craffu 6	Bydd paragraff 3.1 yn cael ei ddiwygio i newid y cyfeiriad at “ <i>darparwr gwasanaeth cofrestredig</i> ” i “ <i>darparwr gwasanaeth</i> ”. Bydd cyfeiriadau eraill yn y Cod at “ <i>darparwr gwasanaeth cofrestredig</i> ” yn cael eu diwygio i “ <i>darparwr gwasanaeth</i> ”. Bydd y geiriau “ <i>sydd wedi'i gofrestru o dan Ddeddf 2016</i> ” yn nhrydydd pwynt bwled paragraff 3.1 yn cael eu dileu.

Pwynt craffu 7	Ym mrawddeg gyntaf paragraff 3.4 yn y testun Cymraeg, bydd y geiriau “ <i>ddarparwyr cofrestredig</i> ” yn cael eu newid i “ <i>ddarparwyr gwasanaethau</i> ” i adlewyrchu'r testun Saesneg diwygiedig a fydd yn dweud “ <i>Service providers</i> ”.
Pwynt craffu 8	Yn ail frawddeg paragraff 3.5 yn y testun Cymraeg, bydd y geiriau “ <i>er lles</i> ” yn cael eu newid i “ <i>er llesiant</i> ”.
Pwynt craffu 9	Bydd diffiniad o “ <i>rheolwr cofrestredig</i> ” yn cael ei ychwanegu at yr Eirfa i egluro ystyr y term.
Pwynt craffu 10	Bydd y term “ <i>siart lif</i> ” yn cael ei ychwanegu ym mharagraffau 4.17 a 5.18 yn y testun Cymraeg i gyfleu'r un ystyr â'r testun Saesneg (“ <i>flowchart</i> ”).
Pwynt craffu 11	Bydd diffiniad o “ <i>gweithiwr gofal cymdeithasol cofrestredig</i> ” yn cael ei ychwanegu at yr Eirfa i egluro ystyr y term,
Pwynt craffu 12	Ym mrawddeg gyntaf paragraff 6.3 yn y testun Cymraeg, bydd y gair “ <i>safonau</i> ” yn cael ei newid i “ <i>perfformiad</i> ” i gyfateb i'r testun Saesneg.
Pwynt craffu 13	Yn ail frawddeg paragraff 6.7 yn y testun Cymraeg, bydd y geiriau “ <i>gan gorff comisiynu allanol</i> ” yn cael eu newid i “ <i>gan gyrrff comisiynu eraill</i> ” i gyd-fynd â'r testun Saesneg.
Pwynt craffu 14	Yn ail frawddeg paragraff 7.5 yn y testun Cymraeg, bydd y geiriau “ <i>ar gyfer cau</i> ” yn cael eu newid i “ <i>ar gyfer ymateb i gau</i> ” i gyfateb i'r testun Saesneg.
Pwynt craffu 15	Ym mrawddeg gyntaf paragraff 7.8 yn y testun Cymraeg, bydd y gair “ <i>canfod</i> ” yn cael ei newid i “ <i>nodï</i> ” o ran cysondeb.
Pwynt craffu 16	Ym mrawddeg gyntaf paragraff 7.9 yn y testun Cymraeg, bydd y gair “ <i>di-dâl</i> ” yn cael ei ddileu fel bod y testun yn cyfateb i'r testun Saesneg.
Pwynt craffu 17	Yn y testun Cymraeg, yn Atodiad A, ar dudalen 25, yn y siart lif, yn yr ail flwch i lawr yn y canol sydd â chefnidir llwydfelyn, ychwanegir y gair “ <i>gwasanaeth</i> ” ar ôl “ <i>darparwr</i> ” mewn dau le, i gyfateb i'r term Saesneg “ <i>service provider</i> ”.

Pwynt craffu 18

Yn y testun Cymraeg, yn Atodiad A, ar dudalen 25, yn y siart lif, yn y pedwerydd blwch i lawr yn y canol sydd â chefnidir llwydfelyn, bydd y testun yn cael ei ddiwygio fel ei fod yn cyfateb i'r testun Saesneg "*risks, breaches in required standards and agreed actions*". Bydd fformat y blwch yn cael ei ddiwygio i sicrhau cysondeb rhwng y testun yn y ddwy iaith.

Pwynt craffu 19

Yn Atodiad C, ar dudalen 27, yn y siart lif, yn y blwch ar waelod y dudalen, bydd y geiriau "*a Chymorth*" yn cael eu hychwanegu at y testun Cymraeg i gyd-fynd â'r testun Saesneg.

Pwynt craffu 20

Yn Atodiad D, ar dudalen 30, yn y siart lif, yn y blwch ar waelod y dudalen sydd â chefnidir glas golau, ychwanegir y gair "*Cau*" ar ôl "*Tim*" yn y testun Cymraeg fel ei fod yn mynegi'r un ystyr â'r term Saesneg "Closure Team".

Bydd materion fformadu a materion golygyddol bychain yn cael eu cywiro hefyd cyn i'r Cod Ymarfer gael ei ddyroddi.